

15 - Penmaenmawr (Cylchoedd Cerrig) i Abergwyngregyn 6.6 milltir / 10.6km

I ymuno o Benmaenmawr, cychwynwch o'r maes parcio tu ôl i'r Llyfrgell gerllaw Ffordd Bangor. Ewch i fyny'r stepiau sydd ar ochr chwith y fflatiau, ar dop y stepiau trowch i'r dde yna gwyrwch i'r chwith (anwybyddwch y trac carreg cyntaf ar eich ochr chwith) a dilynwch y lôn gyda'r tai ar eich ochr dde ar hyd ymyl y cae chwarae ac ymlaen at y ffordd. Trowch i'r chwith ac yna i'r dde ar y llwybr troed cyntaf heibio'r bythynnod (sef yr hen Fferm Craiglwyd gynt) i ail ymuno â Llwybr Gogledd Cymru a Llwybr Arfordir Cymru wrth y postyn marcio llechen amlwg.

Wedi i chi ymweld â'r Cylchoedd Cerrig ewch yn ôl at y prif lwybr a'i ddilyn i'r gorllewin at bostyn marcio lle mae Llwybr Arfordir Cymru'n gadael ar y dde i fynd i lawr i Lanfairfechan. Nawr ewch yn eich blaen ar Lwybr Gogledd Cymru a'i gyfeirbwyntiau sydd yn y pen draw yn mynd heibio fferm ac yn dilyn y trac fferm at lôn darmac. Ewch yn eich blaen i lawr y lôn at gyffordd T. Trowch i'r chwith a dilyn y ffordd i lawr at fynedfa Gwarchodfa Natur Nant y Coed.

Gan barhau ar Lwybr Gogledd Cymru, croeswch y nant a gwyro i'r dde gan ddilyn y ffordd (Ffordd y Dyffryn) i ymuno â Terrace Walk. Anwybyddwch y llwybr troed cyntaf ar y chwith a pharhau tuag at giât mochyn fetel ar eich ochr chwith. Trowch i'r chwith a dilynwch y llwybr sydd yn awr yn dringo'n raddol i fyny'r allt i gyrraedd giât mochyn fetel mewn wal.

Mae'r llwybr yn parhau i fyny'r allt am 0.3 milltir/0.5 km arall gan groesi'r tir agored i gyrraedd maen fawr yn y pendraw ar y Ffordd Rufeinig. Trowch i'r dde i ddilyn y llwybr hynafol yma i lawr i faes parcio bychan. Dilynwch y ffordd i lawr at y bont yn y fforest yn Abergwyngregyn. Mae'r pentref oddeutu cilomedr i lawr y ffordd.